Cadeirydd y Cyngor: Y Cynghorydd Dewi Lewis

CYNGOR TREF PENRHYNDEUDRAETH

Chris Reading Ysw., 16/12/08
Clerc y Panel Annibynnol ar Gymorth Ariannol i Aelodau'r Cynulliad,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
Bae Caerdydd,
Caerdydd, CF99 1NA.

Annwyl Syr,

Cyf. Cyflog a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad
Galwad am Dystiolaeth

Yng nghyfarfod rheolaidd o'r Cyngor trafodwyd y mater uchod. Isod gwelir y cofnod a wnaed o'r drafodaeth:

i. Cyflog a Lwfansau Aelodau'r Cynulliad
Penderfynwyd gohebu â'r pwyllgor, sydd â chyfrifoldeb am yr arolwg yma, i ddatgan y dylai aelodau sydd â'u cartrefi yn fwy nag awr o daith o Gaerdydd gael lwfans ar gyfer aros am yr amser y byddant yn y Senedd, rhwng nos Lun a bore Gwener, yn hytrach nag i brynu ail gartref yn y brif ddinas. Dylai'r cymorth ariannol a gynigir fod yn un teilwng er mwyn gwneud pethau'n rhwydd i'r aelodau ganolbwyntio ar y gwaith pwysig sydd ganddynt.

Byddai'r Cyngor yn ddiolchgar pe byddech yn sicrhau fod y cofnod yn dod i sylw'r panel

Yn gywir,

Clerc y Cyngor.

RECEIVED
19 DEC 2008